# Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr

## Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad Dilynol y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Chwefror 2024)

3 Ebrill 2025

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am fy ngwahodd i roi tystiolaeth ym mis Hydref 2024, ac rwy'n croesawu'r cyfle hwn i ymateb i'w hadroddiad dilynol a'u hargymhellion mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno 10 argymhelliad arall, yr wyf wedi rhoi sylw iddynt isod.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 3**

**2. Ymateb i'r 10 argymhelliad ... 6**

Argymhelliad 1 ... 6

Argymhelliad 2 ... 6

Argymhelliad 3 ... 7

Argymhelliad 4 ... 8

Argymhelliad 5 ... 8

Argymhelliad 6 ... 9

Argymhelliad 7 ... 10

Argymhelliad 8 ... 10

Argymhelliad 9 ... 11

Argymhelliad 10 ... 11

Camau o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ynghylch Sipsiwn, Roma a Theithwyr ... 12

**3. Atodiad B ... 14**

Diweddariadau i ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Awst 2022: ... 14

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae [1]Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a lansiwyd ym mis Mehefin 2022 ac a ddiweddarwyd yn 2024, yn galw am ddiwylliant o ddim goddefgarwch at anghydraddoldeb hiliol o bob math. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys nifer o gamau i gydnabod bod angen llety diogel, diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau, ac i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth safleoedd ac ansawdd gwael y llety i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

Yn 2021, cychwynnodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ymchwiliad i'r safleoedd a ddarperir ar gyfer Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Cyhoeddodd adroddiad 2022 21 o argymhellion, a derbyniwyd pob un gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd ymchwiliad dilynol gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2023 i asesu'r cynnydd a wnaed ar yr argymhellion cychwynnol ac i nodi unrhyw gamau pellach yr oedd eu hangen. Ymunais ag un o gyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Chwefror 2024 ac un ym mis Hydref 2024 i roi tystiolaeth.

Dyma fy ymateb i'r ymchwiliad dilynol diweddaraf, a arweiniodd at 10 argymhelliad ychwanegol.

Mae'r nodau a'r camau gweithredu i wella bywydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, fel unigolion ac fel cymunedau, wedi'u hymgorffori ar draws ein meysydd polisi, ac mae pob maes polisi yn gyfrifol am roi adroddiad i Grŵp Atebolrwydd Allanol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar yr effeithiau ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae pedwar ar ddeg o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Atodiad A) sy'n ymwneud â pholisi llety ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae un cam wedi'i nodi yn y bennod ar Arweinyddiaeth, un ar ddeg yn y bennod ar Gartrefi a Lleoedd, a dau yn y bennod Troseddu a Chyfiawnder.

Fe wnaethom gryfhau Tîm Hil, Ffydd, Cred a Sipsiwn Roma a Theithwyr yn sylweddol er mwyn gallu ymgysylltu'n helaeth â Sipsiwn a Theithwyr, fel unigolion ac fel cymunedau, a chydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r camau hyn. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

[1] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:diweddariad 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

- Llwyddwyd i ddarparu gwasanaethau eirioli a chyngor i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy ddyfarnu contract i TGP Cymru (Teithio Ymlaen) i ddarparu gwasanaethau eirioli a chyngor i aelodau'r gymuned tan fis Awst 2027. Yn ogystal, bydd Teithio Ymlaen yn darparu cyngor cynllunio annibynnol i aelodau o'r gymuned, naill ai ar safleoedd preifat i'r rhai sy'n dymuno cael cyngor cynllunio neu aelodau o'r gymuned sy'n dymuno datblygu eu safleoedd preifat eu hunain i Sipsiwn a Theithwyr; mae hyn yn cyfrannu at gyflawni un o gamau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Dyfarnwyd contract i Sipsiwn a Theithwyr Cymru a fydd yn cyflawni'r cam(au) gweithredu sy'n gysylltiedig â darparu safleoedd tramwy, drwy ddarparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol o'r angen am ddarpariaeth dramwy ledled Cymru, ac argymhellion ynghylch lleoliad a modelau tramwy. Yn ganolog i'r contract hwn mae gwrando ar dystiolaeth aelodau o'r gymuned sydd â phatrwm teithio nomadaidd. Bydd y sylfaen dystiolaeth hon a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025, a byddant yn sail i drafodaeth gydag awdurdodau lleol.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf grŵp rhanddeiliaid newydd i Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Chwefror 2025. Mae'r cyfarfod hwn yn dod â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynghyd gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i sicrhau bod ein holl waith polisi a'n penderfyniadau yn cefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru. Er mwyn sicrhau amrywiaeth yn y gynrychiolaeth, dyfarnwyd contract i sefydliad trydydd sector i recriwtio aelodau o'r gymuned i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn.
- Ar hyn o bryd rydym wrthi'n ymgynghori ar bedair dogfen ganllaw gan Lywodraeth Cymru ynghylch Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer awdurdodau lleol. Diweddarwyd y canllawiau i gyfeirio at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, darparu diffiniadau cliriach o wahanol safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a rhoi mwy o bwyslais ar hawliau dynol, ac ar ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr.
- Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus, dyfarnwyd dau gontract i hwyluso'r gwaith o drafod y pedair dogfen ganllaw ymhlith aelodau'r gymuned.
- Aethom ati i adolygu'r canllawiau ynghylch Grant Cyfalaf Safleoedd yn 2024-25 ac yn 2025-26, gan ystyried y broses ymgeisio, y meini prawf ac adborth gan awdurdodau lleol. Ychwanegwyd caffael tir at y canllawiau ynghylch safleoedd cyfalaf ar gyfer 2024-25, ac fel rhan o'r broses adolygu ar gyfer 2025-26 mae'r cyfeiriad at achosion eithriadol wedi'i ddileu mewn perthynas â chaffael tir. Mae ein trefniadau monitro, yng nghyd-destun asesu llety Sipsiwn a Theithwyr, wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Grant Cyfalaf Safleoedd, ac mae'r ymateb y flwyddyn ariannol hon hyd yma wedi bod yn ardderchog.
- Mae'r gwaith caffael ar gyfer datblygu pecyn hyfforddi ynghylch Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gyfer awdurdodau lleol, ac i ddarparu rhaglen

hyfforddi genedlaethol ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, ar y gweill a disgwylir i'r hyfforddiant hwn ddechrau o 1 Ebrill 2026.

Rwyf am ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu hymchwiliad dilynol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol y Pwyllgor isod.

# 2. Ymateb i'r 10 argymhelliad

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yn ein hadroddiad o 2022 ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Ymateb: Derbyn

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn y 21 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn 2022 i'w gweld fel rhan o Atodiad B.

Goblygiadau Ariannol – dim.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r data diweddaraf i'r Pwyllgor ar nifer y lleiniau tramwy yng Nghymru a'n diweddaru ar sut y mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth dramwy yng Nghymru, gan gynnwys sut y bydd yn sicrhau bod anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu.

Ymateb: Derbyn

Nododd yr asesiadau diweddaraf o lety Sipsiwn a Theithwyr fod yna bedwar llain yng Nghymru - yng Ngwynedd, Sir Benfro a Thorfaen. Ni chafodd dau o'r rhain eu nodi yn y cyfrif carafannau. Nid yw'r lleiniau hyn yn cael eu hystyried yn lleiniau tramwy gwirioneddol, yn yr ystyr nad ydynt ar gael mewn ffordd agored ac sy'n hysbys i holl aelodau'r gymuned sydd â phatrwm teithio nomadaidd.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu safleoedd tramwy. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod y ddarpariaeth dramwy yn gyfyngedig ledled Cymru.

Daeth asesiadau awdurdodau lleol o lety Sipsiwn a Theithwyr (rhwng 25 Chwefror 2016 a 24 Chwefror 2022) i'r casgliad bod rhywfaint o angen am ddarpariaeth dramwy yng Nghymru. Yn ogystal â'r pedwar llain a nodwyd uchod gan dri awdurdod lleol, dim ond pedwar awdurdod lleol a nododd yr angen i greu lleiniau tramwy yn eu hardal. Ni wnaeth yr un o asesiadau'r awdurdodau lleol eraill o lety Sipsiwn a Theithwyr nodi angen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi awdurdodau lleol i ddod at ei gilydd a cheisio canfod dull rhanbarthol ar gyfer darpariaeth dramwy. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau hynny bod angen sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar ddarpariaeth dramwy er mwyn deall patrymau teithio Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n teithio i mewn ac allan o awdurdodau lleol ac i mewn ac allan o Gymru, ac sy'n teithio ar gyfer gwyliau diwylliannol a/neu grefyddol a chyfleoedd cyflogaeth.

Rydym wedi dyfarnu contract i Sipsiwn a Theithwyr Cymru i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth genedlaethol hon a gwneud argymhellion ar gyfer lleoliad a modelau tramwy a/neu fannau aros a gytunwyd ledled Cymru.

Mae'r contract hwn yn cynnwys amod bod yn rhaid i'r sefydliad ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned sydd â phatrwm teithio nomadaidd, gan gynnwys Teithwyr Gwyddelig sy'n mynd i mewn i Ogledd Cymru yn rheolaidd ac yn teithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Bydd y contractwr llwyddiannus yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, awdurdodau lleol, yr heddlu, CLlLC, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i ddeall yr anghenion ymarferol o safbwynt darpariaeth dramwy a'r lleoliadau mwyaf addas.

Disgwylir argymhellion y contract hwn ym mis Hydref 2025.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac aelodau o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i ddarparu mannau aros ychwanegol a gytunwyd dros dro. Mae'n rhaid i bob man aros a gytunwyd yng Nghymru ddarparu gwasanaethau gwastraff a glanweithdra priodol.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r contract tramwy y cyfeirir ato uchod, bydd y contractwr yn cynnwys trafodaethau ac opsiynau ynghylch mannau aros a gytunwyd ochr yn ochr â darpariaeth dramwy, neu fel dewis arall. Unwaith y bydd gennym argymhellion ym mis Hydref 2025, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i weithredu'r argymhellion.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid safleoedd cyfalaf i awdurdodau lleol i ariannu naill ai safleoedd awdurdodau lleol neu safleoedd tramwy. Yn 2024-25, fe wnaethom ymestyn y meini prawf cymhwysedd i gynnwys caffael tir y gellir ei

ddefnyddio ar gyfer lleiniau newydd, safleoedd newydd, safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro/a gytunwyd.  Mae canllawiau Grant Cyfalaf Safleoedd hefyd wedi'u hadolygu cyn 2025-26. Ar gyfer 2025-26, bydd y cyllid cyfalaf yn blaenoriaethu lleiniau newydd i ddiwallu'r angen amdanynt.  Rydym hefyd wedi nodi y bydd cynigion sy'n gofyn am gymorth ar gyfer lleiniau newydd neu leiniau tramwy yn cael eu ffafrio.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 4

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y
mae'n monitro'r defnydd o'r Grant Cyfalaf Safleoedd i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn briodol ac yn mynd i'r afael ag anghenion Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae pob cais am grant cyfalaf yn cael ei asesu gan banel o swyddogion asesu grantiau Llywodraeth Cymru sy'n ystyried gwerth am arian pob cais ac yn ei asesu yn erbyn meini prawf y canllawiau.  Ar ôl dyfarnu grant, trefnir cyfarfodydd monitro misol rhwng rheolwr grantiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r awdurdod lleol i sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud a'i gwblhau fel y cytunwyd, a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 5

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r meini prawf a'r broses ymgeisio ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodwyd uchod, adolygwyd canllawiau Grant Cyfalaf Safleoedd yn 2024-25 ac yn 2025-26; edrychodd yr adolygiad ar y broses ymgeisio a'r meini prawf, ac ymatebodd i adborth gan awdurdodau lleol.  Ar gyfer 2025-26 mae'r broses gais ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Mae canllawiau ynghylch safleoedd cyfalaf ar gyfer y flwyddyn nesaf yn rhoi mwy o bwyslais ar greu lleiniau newydd i fynd i'r afael â'r angen am leiniau a nodwyd yn asesiadau awdurdodau lleol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei wneud, a sut y bydd yn mynd i'r afael â methiant awdurdodau lleol i gynnal a gwella'r safleoedd hynny. Yn rhan o hyn, dylai ystyried sut mae awdurdodau lleol yn ariannu ac yn blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi sefydlu rhaglen i fonitro gydag awdurdodau lleol y cynnydd yn erbyn eu hasesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r monitro hwn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer safleoedd presennol, ac unrhyw wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni drwy ein contractwr Eirioli a Chyngor am gyflwr gwael safleoedd.

Fel rhan o'r monitro hwn, mae'r trafodaethau hefyd yn canolbwyntio ar gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw safleoedd. Mae hyn yn cynnwys sut mae rheoli cynllun cynnal a chadw yn dda mewn ffordd ragweithiol yn effeithio'n gadarnhaol ar y preswylwyr.

Rydym wedi adolygu a diweddaru'r canllawiau ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r canllawiau ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Yn ogystal, rydym wedi contractio Sipsiwn a Theithwyr Cymru a Teithio Ymlaen i ymgymryd â gwaith ymgysylltu uniongyrchol wedi'i hwyluso â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar y dogfennau canllaw hyn.

Mae'r canllawiau diwygiedig ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi cryfhau'r pwyslais ar sicrhau strwythur i'r cynllun cynnal a chadw. Maent yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio cynhwysfawr, yn diffinio cyfrifoldebau'n glir, ac yn pwysleisio safonau o ansawdd uchel. Yn ogystal, maent yn annog cyfranogiad cymunedol i sicrhau bod anghenion y preswylwyr a'r hyn sydd orau ganddynt yn cael ei ystyried.

Anogir awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid o'r £3.44 miliwn o gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd sydd ar gael ar gyfer 2024-25. Gellir ariannu naill ai safleoedd preswyl awdurdodau lleol neu safleoedd tramwy. Gellir ariannu prosiectau i adnewyddu llety presennol, adeiladu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr. Yn 2024-25 dyfernais £2,000,235 i wella safleoedd.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 7

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellid defnyddio’r Grant Cyfalaf Safleoedd i gefnogi datblygiad safleoedd preifat.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion yn ystyried sut orau i gefnogi safleoedd preifat.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 8

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â’r rhaglen beilot i roi cyngor i Sipsiwn a Theithwyr sy'n chwilio am gymorth i ddatblygu safleoedd preifat fel mater o frys a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Pwyllgor ymhen tri mis.

Ymateb: Derbyn

Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod y broblem o werthu tir anaddas i Sipsiwn a Theithwyr a'r drafferth o ran cael caniatâd cynllunio i droi tir yn safleoedd preifat i Sipsiwn a Theithwyr yn parhau.

Fel rhan o'r contract Eirioli a Chyngor, dyfarnwyd cyllid ychwanegol i Teithio Ymlaen i ddarparu cyngor cynllunio preifat i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Bydd cyngor cynllunio ar gael o 1 Ebrill 2025. Bydd y peilot hwn yn dechrau o fis Ebrill 2025 ac yn rhedeg am gyfnod o 18 mis.

Bydd Teithio Ymlaen yn is-gontractio arbenigwyr cynllunio i ddarparu'r cyngor hwn yn ogystal ag ymgymryd â gwaith wedi'i dargedu er mwyn tynnu sylw'r rhai sy'n chwilio am safleoedd preifat at y ffaith bod y gwasanaeth cyngor cynllunio penodol hwn ar gael.

Byddant hefyd yn ymgymryd â gwaith mapio o ran nifer yr aelodau o'r gymuned sydd angen cyngor cynllunio neu sydd eisiau sefydlu eu safleoedd preifat eu hunain.

Mae'r cynllun peilot ar gyfer cyngor cynllunio yn ddarn penodol o waith a fydd yn cael ei gyflwyno fel ychwanegiad at gontract Eirioli a Chyngor Teithio Ymlaen.

Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu cyngor cynllunio wedi'i deilwra i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n awyddus i ddatblygu safleoedd preifat.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru adfer y Fforwm Sipsiwn a Theithwyr ar frys.

Ymateb: Derbyn

Mae Grŵp Rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi cael ei adfer, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac aelodau o'r gymuned. Pwrpas y cyfarfod hwn yw dod â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynghyd gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i sicrhau bod ein holl waith polisi a'n penderfyniadau yn cefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru.

Rydym wedi dyfarnu contract i sefydliad Sipsiwn a Theithwyr, sefydliad trydydd sector, i recriwtio aelodau o'r gymuned i fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfodydd a drefnir ledled Cymru.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27 Chwefror 2025.

Goblygiadau Ariannol – Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan bob awdurdod lleol Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Nid ydym yn gyfrifol am benderfyniadau staffio awdurdodau lleol; fodd bynnag, gallwn annog awdurdodau lleol i benodi swyddogion cyswllt dynodedig â Sipsiwn a Theithwyr. Rydym yn ymwybodol bod 15 awdurdod lleol eisoes wedi dynodi swyddi sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr.

Yn ogystal, efallai y bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod cam gweithredu wedi'i nodi o fewn Cynllun Gweithredu diwygiedig Cymru Wrth-Hiliol i sefydlu rolau cyswllt i fod yn fentoriaid cymunedol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr, i fynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth sydd yna i leisiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae swyddogion yn ystyried opsiynau polisi i recriwtio aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gamu i'r rôl hon o fod yn fentor/cyswllt cymunedol. Bydd swyddogion hefyd yn ystyried mecanweithiau ar gyfer defnyddio mentoriaid cymunedol o fewn awdurdodau lleol.

Goblygiadau Ariannol – Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am benderfyniadau staffio awdurdodau lleol, bydd y gwaith i sefydlu rolau cyswllt i fod yn fentoriaid cymunedol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a fydd yn cefnogi awdurdodau lleol i ddeall anghenion y gymuned hon, yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

Atodiad A

Camau o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ynghylch Sipsiwn, Roma a Theithwyr

| |
|---|
| Pennod Arweinyddiaeth o ran Gwrth-hiliaeth |
| **Cam gweithredu**: Sefydlu rolau cydlynwyr neu fentoriaid cymunedol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys hyfforddiant ar arweinyddiaeth fel y'i nodwyd gan fentoriaid, gan sicrhau ei fod yn cael ei arwain gan y gymuned. |
| Pennod Cartrefi a Lleoedd |
| **Cam gweithredu**: Gweithio gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, awdurdodau lleol ac eraill i alluogi darpariaeth dramwy briodol. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth pan fydd angen darpariaeth dramwy. |
| **Cam gweithredu**: Treialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o ariannu darpariaeth barhaol. |
| **Cam gweithredu**: Ariannu astudiaeth i edrych ar opsiynau ar gyfer cynllun rhentu cartref symudol drwy dai cymdeithasol. |
| **Cam gweithredu**: Yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth o gynllun rhentu cartref symudol, sefydlu cynllun peilot. |
| **Cam gweithredu**: Byddwn yn caffael fframwaith er mwyn i gwmni hyfforddiant allanol ddatblygu a chyflwyno cwrs hyfforddiant i uwchsgilio pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ar ffyrdd nomadaidd o fyw ymhlith Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Caiff hwn ei ddatblygu gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |

| |
|---|
| Cam gweithredu: Comisiynu rhaglen beilot tair blynedd i roi cyngor i'r rhai sy'n ceisio datblygu safleoedd preifat. |
| Cam gweithredu: Adolygu'r canllawiau ynghylch safleoedd cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r cynllun peilot ar gyfer cyllid i brynu tir, adborth gan y cymunedau a phenderfyniad ar gyllid ar gyfer safleoedd preifat. |
| Cam gweithredu: Ailddrafftio a symleiddio'r Canllawiau ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys aelodau o'r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion. |
| Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. |
| Cam gweithredu: Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phobl a rhanddeiliaid o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i lywio polisi Llywodraeth Cymru. Sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd. |
| Cam gweithredu: Darparu gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |
| Pennod Troseddu a Chyfiawnder |
| Cam gweithredu: Diweddaru'r canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod, gan gynnwys aelodau o'r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion. |
| Cam gweithredu: Gweithio gyda'r heddlu ac aelodau o'r gymuned i fabwysiadu protocol ynglŷn â gwersylla diawdurdod. |

# 3. Atodiad B

Diweddariadau i ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Awst 2022:

| Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Argymhelliad 1:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd sy'n briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i liniaru'r heriau o ddod o hyd i dir addas ar gyfer llety safleoedd i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn drwy'r broses o Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a thrwy drafodaethau rheolaidd gydag awdurdodau lleol am eu cynnydd o ran diwallu'r anghenion a nodwyd yn eu hasesiadau. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ar lefel Gweinidogol a swyddogol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid safleoedd cyfalaf sydd ar gael i awdurdodau lleol i ariannu naill ai safleoedd preswyl neu safleoedd tramwy. Gellir ariannu prosiectau i adnewyddu llety presennol, adeiladu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr. Eleni rydym wedi ymestyn y meini prawf cymhwysedd i gynnwys caffael tir i geisio cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal awdurdodau lleol rhag darparu safleoedd.<br><br>Cyllid grant cyfalaf safleoedd 2025-26 yw £3.44 miliwn, ac mae pob awdurdod lleol wedi'i annog i wneud cais am gyllid.<br><br>Rydym hefyd wedi sefydlu rhaglen i fonitro gydag awdurdodau lleol y cynnydd yn erbyn cylch 2 eu hasesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i Teithio Ymlaen i ddarparu cyngor cynllunio preifat i gymunedau o fis Ebrill 2025 ymlaen, dros gyfnod o 18 mis, yn ychwanegol at y contract Eirioli a Chyngor presennol (a ddyfarnwyd ym mis Medi 2024). Bydd hyn yn helpu i liniaru'r heriau o ran dod o hyd i dir addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |
| Argymhelliad 2:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu | Yn 2024, cymeradwywyd pob asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer y cylch asesu diweddaraf (2016 - 2022) gan Weinidogion Cymru. |

| | |
|---|---|
| cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac awdurdodau lleol unigol i ddatblygu rhwydwaith o ddarpariaeth ddarfodol, a sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau cynnydd. | Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract i Sipsiwn a Theithwyr Cymru, i ddarparu ymchwil ar ffurf sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar anghenion tramwy ledled Cymru. Bydd yr ymchwil yn gwneud argymhellion ynghylch lleoliad a modelau tramwy. Mae'r argymhellion hyn i fod i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2025, a fydd wedyn yn llywio'r trafodaethau gydag awdurdodau lleol.<br><br>Yn ganolog i'r contract hwn mae'r disgwyliad bod aelodau'r gymuned yn cael eu cynnwys yn y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>Bydd datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn, mewn cydweithrediad â phartïon rhanbarthol perthnasol a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn helpu i sicrhau bod darpariaeth dramwy yn cael ei lleoli'n briodol a bod modd i'r rhai sydd ei hangen gael mynediad ati. |
| Argymhelliad 3:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer gwasanaeth cynghori annibynnol a dibynadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn,<br>Roma a Theithwyr, gan gynnwys gofynion cyllido, adnoddau a sgiliau. | Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract Eirioli a Chyngor i Teithio Ymlaen (TGP Cymru) drwy ymarfer caffael cystadleuol i ddarparu cyngor a chymorth eirioli i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y contract hwn ar waith o fis Medi 2024 i fis Awst 2027.<br><br>Dyma amcanion y gwasanaeth:<br><br>• Hwyluso cyfle cyfartal i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng nghymdeithas Cymru.<br>• Darparu cymorth a chysylltu â gwasanaethau cynghori arbenigol i helpu aelodau o'r gymuned i integreiddio'n effeithiol i'r gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys dadlau dros newidiadau i brosesau cyhoeddus pan fo angen.<br>• Cefnogi cydlyniant cymunedol drwy herio stereoteipiau negyddol a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau. |

| | |
|---|---|
| | • Grymuso cymunedau ac unigolion i godi llais ac i fynegi barn ar eu rhan eu hunain ar ddatblygu polisi ac unrhyw faterion eraill a gaiff eu codi.<br>• Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddiddymu hiliaeth a gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a chynnig atebion i'r rhwystrau y mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hwynebu.<br>• Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion systemig sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dylunio atebion i broblemau sy'n adlewyrchu profiad byw Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>• Ymgysylltu'n llawn â'r broses o werthuso'r contract, o ran perfformiad y contract yn ogystal ag o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>Bydd y gwasanaeth ar gael i oedolion a phlant a phobl ifanc yng nghymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. |
| Argymhelliad 4:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai. | Mae fy swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr awdurdodau lleol sy'n ymwneud â gwaith Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gefnogi eu rhyngweithio o ddydd i ddydd ag aelodau o'r gymuned, drwy fonitro eu cydymffurfiaeth ag asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, drwy grŵp rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a thrwy'r gwaith achosion y mae swyddogion yn ymwneud ag ef, y tynnir ein sylw ato gan ddarparwyr ein contract Eirioli a Chyngor.<br>Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni dyletswyddau i fynd i'r afael ag anghenion llety.<br><br>Mae gan y tîm polisi reolwr grantiau penodedig ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gefnogi ceisiadau gan awdurdodau lleol. Mae cyfarfodydd monitro yn cael eu trefnu rhwng rheolwr grantiau Sipsiwn, Teithwyr a Roma a'r awdurdod lleol i sicrhau bod |

| | |
|---|---|
| | gwaith yn cael ei wneud a'i gwblhau fel y cytunwyd a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol. |
| Argymhelliad 5:<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Ddeddf Tai yn effeithiol o ran darparu safleoedd addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly, dylai nodi sut y mae'n bwriadu tynhau'r modd y mae'n monitro gweithrediad y Ddeddf. | Fel rhan o'r broses o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, mae swyddogion yn gwneud gwaith monitro rheolaidd gydag awdurdodau lleol i'w dal i gyfrif o ran eu dyletswydd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn eu hasesiad. Mae'r trefniadau monitro hyn hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Grant Cyfalaf Safleoedd, ac mae'r ymateb y flwyddyn ariannol hon hyd yma wedi bod yn ardderchog.<br><br>Lle bydd fy swyddogion o'r farn naill ai nad yw awdurdodau lleol yn bodloni eu dyletswyddau i ddiwallu anghenion llety neu nad yw'r cynnydd yn erbyn eu hasesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddigonol, bydd fy swyddogion yn y lle cyntaf yn uwchgyfeirio hyn o fewn yr awdurdod lleol. Os na ellir dod o hyd i ddatrysiad, bydd fy swyddogion yn fy mriffio, ac efallai y byddaf innau yn uwchgyfeirio'r mater at arweinwyr y Cyngor.<br><br>Mae adran 104 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i arfer ei bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae hwn yn bŵer y byddaf yn ystyried ei ddefnyddio os yw'n ymddangos nad yw awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflawni eu dyletswyddau. |
| Argymhelliad 6:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut a phryd y bydd yn defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai. | Lle bydd fy swyddogion o'r farn naill ai nad yw awdurdodau lleol yn bodloni eu dyletswyddau i ddiwallu anghenion llety neu nad yw'r cynnydd yn erbyn eu hasesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddigonol, bydd fy swyddogion yn y lle cyntaf yn uwchgyfeirio hyn o fewn yr awdurdod lleol.<br><br>Caiff y broses uwchgyfeirio ei hasesu, gan ystyried amserlenni gweithgareddau cynllunio awdurdodau lleol, a chan sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu hysbysu am unrhyw risgiau neu oedi posibl. Os yw'r cynnydd yn anfoddhaol, bydd swyddogion yn gofyn am ddiweddariad ar unwaith gan awdurdodau lleol, gan bwysleisio eu dyletswydd |

| | |
|---|---|
| | statudol. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd a bod materion yn cael eu datrys yn brydlon.<br><br>Os na ellir dod o hyd i ddatrysiad, bydd swyddogion yn briffio'r Gweinidogion, a allai fod am uwchgyfeirio'r mater at arweinwyr y Cyngor.<br><br>Mae adran 104 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i arfer ei bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae hwn yn bŵer y bydd Gweinidogion yn ystyried ei ddefnyddio os yw'n ymddangos nad yw awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflawni eu dyletswyddau. |
| Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer gwerthuso pa mor effeithiol yw Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o ran helpu i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Diweddarwyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn 2024, ac mae'n cynnwys camau gweithredu ac amserlenni newydd, a nodau a chamau penodol i wella bywydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>Mae'r camau a'r nodau hyn wedi'u hymgorffori ar draws nifer o feysydd polisi sy'n gyfrifol am adrodd ar ganlyniadau o safbwynt Sipsiwn, Roma a Theithwyr i Grŵp Atebolrwydd Allanol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br><br>Yn dilyn adolygiad o lywodraethiant, fe wnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau ein strwythur, ac ar hyn o bryd rydym yn ceisio penodi tri arbenigwr newydd i'r Grŵp Atebolrwydd Allanol. Mae'r cyfleoedd hyn wedi'u hyrwyddo'n eang, gan gynnwys ymhlith rhanddeiliaid y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb i ymuno â'r grŵp, ac os byddant yn llwyddiannus, bydd eu cyfranogiad yn helpu i werthuso effeithiolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |
| Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu | Cyfarfu swyddogion â rhanddeiliaid ac aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i drafod fersiwn Mai 2024 o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd adborth aelodau'r gymuned yn nodi bod y camau gweithredu yn rhy gymhleth, a bod angen symleiddio'r iaith. |

| | |
|---|---|
| Cymru Wrth-hiliol sydd eisoes ar y gweill. | Ers hynny, ym mis Rhagfyr 2024 cafodd y camau gweithredu eu diwygio a'u cymeradwyo.<br>Yn dilyn y diweddaru, cynhwyswyd un cam newydd yn ymwneud â rolau mentor/cyswllt cymunedol, symleiddiwyd y camau gweithredu eraill ac adolygwyd yr amserlenni. O'r 14 cam gweithredu sy'n ymwneud â darparu llety, mae 5 wedi'u cwblhau, 2 yn agosáu at fod wedi'u cwblhau, ac mae gan 7 gynllun gwaith ar waith i'w cyflawni erbyn amserlenni diwygiedig Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br><br>Dyma rai o'r prif ddiweddariadau:<br><br><u>Grŵp Rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr:</u><br><br>Un o'r camau sydd wedi'i roi ar waith ar unwaith yw sefydlu grŵp Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a gynhaliodd ei gyfarfod hybrid cyntaf gydag awdurdodau lleol ac aelodau o'r gymuned yn Aberystwyth ar 27 Chwefror 2025. Gwahoddodd There and Back Again aelodau o'r cymunedau hyn i ymuno â'r grŵp rhanddeiliaid hwn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn digwydd bob pedwar mis ledled Cymru, a fydd yn ein helpu i ddatblygu ein gweithgareddau mewn partneriaeth â'r gymuned.<br><br><u>Tramwy:</u><br><br>Mae'r contract ymchwil trafnidiaeth wedi'i ddyfarnu i Sipsiwn a Theithwyr Cymru i ddarparu ymchwil ac argymhellion ynghylch y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer darpariaeth dramwy, a beth y byddai hyn yn ei olygu'n ymarferol. Bydd cynnwys aelodau'r gymuned yn y dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ategu'r ymchwil ynghylch darpariaeth dramwy drwy hwyluso dealltwriaeth o fywyd teithio i deuluoedd ledled Cymru ac atal y perygl o allgáu'r gymuned hon yn gymdeithasol.<br><br>Mae'r argymhellion i fod i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2025, a byddant yn cael eu rhannu wedyn gyda'r awdurdodau lleol perthnasol. |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<u>Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol:</u><br><br>
Mae gwaith ar y gweill i gaffael rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sydd i gael gwella eu sgiliau o safbwynt anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd hyn yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu gan roi'r lle canolog i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>
Mae'r broses gaffael hon bellach yn fyw ar gyfer ceisiadau, a bydd y dyfarnu yn digwydd yng Ngwanwyn / dechrau Haf 2025.<br><br>
<u>Cynllun peilot cyngor preifat:</u><br><br>
Byddwn yn cyflwyno rhaglen beilot a fydd yn cael ei gweithredu drwy sefydliad trydydd sector i ddarparu cyngor cynllunio i deuluoedd i'w helpu i osgoi gwario arian ar dir anaddas. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid sydd wedi'i glustnodi fel rhan o'r contract Eirioli a Chyngor i Teithio Ymlaen i ddarparu cyngor cynllunio preifat i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y cyngor hwn ar gael i gymunedau drwy Teithio Ymlaen o 1 Ebrill 2025.<br><br>
<u>Dogfennau Canllaw:</u><br><br>
Mae swyddogion wedi ailddrafftio pedair dogfen ganllaw sy'n ymwneud â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac mae pob un bellach wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>
Yn ogystal ag adolygu'r canllawiau, rydym wedi pennu sefydliadau trydydd sector i ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar yr hyn y mae'r canllawiau hyn yn ei olygu iddyn nhw, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ystod misoedd yr haf.
</td>
</tr>
<tr>
<td>Argymhelliad 9:<br><br>Wrth adolygu'r canllawiau ar safleoedd, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r</td>
<td>Ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus sy'n mynd rhagddo ar bedair dogfen ganllaw ynghylch Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer awdurdodau lleol, mae fy swyddogion wedi dyfarnu contractau i ddau sefydliad Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ymgymryd â</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well yn y canllawiau. | gwaith ymgysylltu wedi'i hwyluso ar y dogfennau canllaw drafft hyn i lywio eu datblygiad.<br><br>Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys:<br><br>1) Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<br><br>2) Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<br><br>3) Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr<br><br>4) Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod<br><br>Bydd fersiynau terfynol o'r canllawiau yn cael eu cyhoeddi yn Haf 2025. |
| Argymhelliad 10:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r holl ganllawiau sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Mae'r holl ddogfennau canllaw ynghylch Sipsiwn a Theithwyr wedi'u hadolygu a'u diweddaru, ac maent yn fyw ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Mae'r canllawiau ynghylch safleoedd cyfalaf hefyd wedi'u hadolygu ar gyfer 2025-26. |
| Argymhelliad 11:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y cymorth dysgu a datblygu a fydd yn cael ei roi i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai hyn gynnwys manylion am: pwy fydd yn cael yr hyfforddiant; amserlenni; sut y caiff ei ariannu a'i ddarparu; ac a fydd yn ofyniad statudol i ymgymryd â'r hyfforddiant. | Ar hyn o bryd mae proses gaffael fyw i sefydliad ddatblygu pecyn hyfforddi ynghylch Sipsiwn, Roma a Theithwyr a darparu rhaglen o hyfforddiant i awdurdodau lleol dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y contract yn dechrau o 1 Ebrill 2026 am gyfnod o 3 blynedd. |

| | |
|---|---|
| Argymhelliad 12:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwerthuso'r effaith y bydd yr hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol yn ei chael ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. | Mae gwerthusiad o'r pecyn hyfforddi ac o weithredu'r hyfforddiant wedi'i nodi fel rhan o'r contract. |
| Argymhelliad 13:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cynghorwyr cymuned yn yr ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. | Bydd hyfforddiant ar gael i Gynghorwyr fel rhan o'r contract hyfforddi a nodir uchod. |
| Argymhelliad 14:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau, ar wahân i'r rhai yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, y bydd yn eu cymryd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y gymuned ehangach o ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Mae cam gweithredu wedi'i nodi o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol i sefydlu rolau cyswllt neu fentoriaid cymunedol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Mae swyddogion yn ystyried opsiynau polisi i recriwtio aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gamu i'r rôl hon o fod yn fentor/cyswllt cymunedol.  Bydd swyddogion hefyd yn ystyried mecanweithiau ar gyfer defnyddio mentoriaid cymunedol o fewn awdurdodau lleol.<br><br>Bydd mynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth sydd yna i leisiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mentora, hyfforddi a rhaglenni arweinyddiaeth gymunedol yn cynyddu dealltwriaeth o anghydraddoldeb hiliol, ac |

| | |
|---|---|
| | yn cryfhau'r wybodaeth am ddiwylliant ac anghenion y gymuned a'r ddealltwriaeth ohonynt. |
| Argymhelliad 15:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses bresennol ar gyfer Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Adolygwyd y broses o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2024. |
| Argymhelliad 16:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut y gellir gwella gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y broses o gynnal asesiadau llety, gan gynnwys i ba raddau y mae'r mesurau a'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol wedi gwneud gwahaniaeth. | Dim ond i'r graddau yr ymgysylltir â'r gymuned y mae asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn effeithiol. Rydym yn disgwyl gweld yr ymgysylltiad hwn a pherthynas gadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a'i gymuned fel sail i unrhyw asesiad o angen ac unrhyw gynlluniau i ddiwallu'r angen hwnnw – dyma'r arfer da y byddem yn ei ddisgwyl gan bob awdurdod lleol. Fel rhan o'n hadolygiad o'r canllawiau ar gyfer asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, bydd ymgysylltu â'r gymuned yn ddisgwyliad sylfaenol. |
| Argymhelliad 17:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa broses sydd ar waith i fonitro'r Asesiadau o Anghenion | Dilynir proses graffu ar lefel swyddogol ac ar lefel Weinidogol fel rhan o gylch asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Unwaith y caiff asesiad awdurdod lleol o anghenion llety ei gyflwyno ac yr eir ati i graffu arno, gall Gweinidogion ei dderbyn, ei wrthod, neu ei dderbyn yn amodol ar addasiadau, |

| | |
|---|---|
| Llety Sipsiwn a Theithwyr ar sail Cymru gyfan er mwyn cael dealltwriaeth o'r anghenion llety ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel leol. | ond disgwylir iddynt barhau i weithredu ar sail eu hasesiad presennol hyd nes y caiff yr asesiad newydd ei gymeradwyo.<br><br>Gall swyddogion ddefnyddio cynnwys yr asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, eu gwybodaeth bresennol am ansawdd safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac unrhyw waith achosion a nodwyd drwy'r contract Eirioli a Chyngor i drafod safleoedd neu faterion penodol gydag awdurdodau lleol.<br><br>Fel yr amlinellwyd uchod, fel rhan o'r broses o asesu anghenion llety, mae swyddogion yn cynnal gwaith monitro rheolaidd gydag awdurdodau lleol i'w dal i gyfrif am eu dyletswydd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ganddynt yn eu hasesiad. Mae'r trefniadau monitro hyn hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Grant Cyfalaf Safleoedd, ac mae'r ymateb y flwyddyn ariannol hon hyd yma wedi bod yn ardderchog. |
| Argymhelliad 18:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ehangach o sut mae'r cyllid ar gyfer datblygu safleoedd yn ymwneud â'r gofynion o ran safonau safleoedd. | Rydym wedi adolygu'r canllawiau ynghylch safleoedd cyfalaf y ddwy flynedd ddiwethaf, ac o ganlyniad rydym wedi cynyddu uchafswm cost llain newydd o £150k i £200k. Rydym hefyd wedi ystyried adborth gan awdurdodau lleol ac wedi gwneud i ffwrdd â dyddiadau cau'r cylch ceisiadau; ar gyfer 2025-26, felly, mae'r broses gais ar agor drwy gydol y flwyddyn. |
| Argymhelliad 19:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer ariannu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys a ddylid ehangu'r meini prawf ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn i awdurdodau lleol allu prynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd a sut y gellid | Fel rhan o gyllid safleoedd cyfalaf ar gyfer 2024-25, rydym wedi ychwanegu'r opsiwn o allu defnyddio'r grant cyfalaf i gaffael safleoedd er mwyn cefnogi awdurdodau lleol ymhellach i gyflawni eu dyletswydd i ddarparu llety i'r cymunedau hyn.<br><br>Ar hyn o bryd mae swyddogion wrthi'n archwilio sut y gallwn ariannu safleoedd preifat ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |

| | |
|---|---|
| defnyddio cyllid i gefnogi datblygiad safleoedd preifat. | |
| Argymhelliad 20:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i ddarparu lleiniau tramwy ledled Cymru cyn toriad yr haf yn 2023. | Gweler fy ymateb i Argymhelliad 2. |
| Argymhelliad 21:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r heddlu a sefydliadau partner i gyfathrebu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am unrhyw newidiadau a ragwelir i gynlluniau i orfodi Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yng Nghymru. | Mae swyddogion yn aelodau o is-grŵp Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru ac yn gweithio gyda phartneriaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r gymuned ar Brotocolau'r Heddluoedd ar Reoli Gwersylloedd Diawdurdod ac i ymgysylltu â nhw.<br><br>Unwaith y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud, bydd swyddogion yn gweithio gyda'r pedwar heddlu i drefnu i'r protocolau hyn gael eu llofnodi, codi ymwybyddiaeth ohonynt ymhlith aelodau'r gymuned, a sicrhau bod y partneriaid sy'n gyfrifol am weithio gyda gwersylloedd diawdurdod yn gwbl ymwybodol o'r protocolau ac yn eu dilyn.<br><br>Ar ôl cwblhau hyn, byddwn yn gwneud trefniadau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned ynghylch y protocolau heddlu hyn. |